**LC494**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2002 OS 1385 (W.135)

Mae’r rhain yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) 2001 er mwyn galluogi cadeirydd un o gyfarfodydd y weithrediaeth, neu un o bwyllgorau’r weithrediaeth, i ganiatáu i eitem o fusnes brys gael ei hystyried heb i’r manylion fod ar gael i’r cyhoedd eu gweld.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi o dan RhS 11.5

**Sylwadau**

**Pwerau Galluogi**

Byddai wedi bod o gymorth i nodi o dan ba is-adran(nau) yn adran 105 y caiff y rheoliadau eu gwneud. Mae’n ymddangos mai dim ond o dan is-adran (2) o bosibl y gwneir y rheoliadau hyn.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

9 Gorffennaf 2002